| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Dyddiad y cyfarfod: | 25 Mawrth 2019 |
| Teitl: | Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau |
| Awdur: | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Pwrpas yr adroddiad: | Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y trefniadau arfaethedig ar gyfer Adroddiadau Blynyddol 2018/19 |

**1.0 Cefndir**

1.1 Rwyf wedi adrodd yn y gorffennol i'r Pwyllgor hwn mewn perthynas ag Adran 5 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 sy'n rhoi dyletswydd ar y Cyngor Sir i sicrhau bod trefniadau mewn lle i Aelodau gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar eu gweithgareddau.

1.2 Mae'r Cyngor wedi bod yn cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Aelodau ers 2013/14 ac mae'r adroddiadau i'w gweld ar y ddolen isod:

https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-AC-AS-ASE/Adroddiadau-blynyddol-y-cynghorwyr.aspx

**2.0 Cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2018/19**

3.1 Bwriedir dilyn yr amserlen ganlynol ar gyfer cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol 2017/18:

- Cylchredeg templed i'r Aelodau – erbyn **diwedd Mawrth 2019** (y templed i gynnwys manylion am bresenoldeb yr Aelod mewn prif bwyllgorau ac is-bwyllgorau, ynghyd ag unrhyw sesiynau dysgu a datblygu a fynychwyd.

  Cyfrifoldeb yr Aelodau unigol fydd cynnwys manylion am bresenoldeb mewn cyfarfodydd cyrff allanol).

- Aelodau i gyflwyno adroddiadau drafft i'r Gwasanaethau Democrataidd – **erbyn diwedd mis Ebrill 2019.**

- Cwblhau a chyhoeddi'r adroddiadau ar wefan y Cyngor - **erbyn 28 Mehefin 2019**.

## 4.0 Argymhelliad

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau ar y trefniadau arfaethedig o ran cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol Aelodau ar gyfer 2018/19.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**19 Mawrth 2019**

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2018/19

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Enw**
**Parti:** **Ward:**

**1 - Rôl a Chyfrifoldebau**

| **Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | [1]**Crynodeb o bresenoldeb** |
|---|---|
| e.e. Cyngor | *(linc at dudalen 'cofnod o bresenoldeb' y cynghorydd)* |
| e.e. Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | |
| e.e. Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | |
| e.e. Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| *Rhestr o'r cyrff perthnasol a gosod linc i wefan y Cyngor* | |

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

## 4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi’u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi’i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn) - *linc at y dudalen hyfforddiant*.

## 5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

*Linc i wefan y Cyngor*

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd** | **Ebrill 2019** |